



Bwletin GwE



Rhannwch ein bwletin â thîm staff yr ysgol i gyd ac anogwch eich holl gyd-weithwyr i ymuno â'n [rhestr bostio](#).

Cysylltu â GwE

Rydym yma i helpu! Rydym ar-lein ac wrth law i gefnogi ysgolion a llywodraethwyr. Cysylltwch â ni ar post@gwegogledd.cymru ac fe atebwn cyn gynted ag y bo modd.



Neges gan GwE ac Awdurdodau Lleol y Rhanbarth

Rhaglen Dysgu Carlam

Manteisiwn ar y cyfle hwn, yn fuan yn y tymor newydd, i roi diweddariad i chi ar y cymorth y bydd GwE yn ei ddarparu i chi a'ch tîm o ran 'cyflymu'r dysgu' gydag ystod oedran y disgyblion sydd yn eich ysgol. Bydd gweithredu **Rhaglen Dysgu Carlam**, yn y tymor byr, yn greiddiol i'n strategaeth. Ond, wrth symud ymlaen, bydd hyn hefyd yn cynnwys cefnogaeth ar gyfer datblygu a gwreiddio dysgu ac addysgu effeithiol ymhellach.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Gwybodaeth a Chanllawiau GwE

Rhaglenni Datblygu

[CPCP 2020-21 - Model Asesiad yn Unig - DYDDIAD CAU: 18/09/2020](#)

Oherwydd yr amgylchiadau presennol a'r effaith ar brosesau arferol yr asesiad CPCP, bydd model ychwanegol **CPCP - Asesiad yn Unig** ar gael yn y flwyddyn academiaidd 2020-21. Mae hyn yn benodol er mwyn cefnogi'r arweinwyr ysgol hynny sydd ar drothwy prifathrawiaeth ac sy'n disgwyl gwneud cais am swydd Pennaeth [yn y 12 mis nesaf](#). Bwriedir y rhaglen ar gyfer ymarferwyr sy'n barod am asesiad **yn awr** ac nid yw'n cynnwys cefnogaeth ddatblygol. Dylai ymgeiswyr sicrhau ardystiad eu Pennaeth a'u rhanbarth. Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth am y drefn.

Os ydych yn awyddus i ddilyn rhaglen sy'n arwain at gymhwyster CPCP ond nad ydych ar drothwy prifathrawiaeth, dylech ystyried dilyn y llwybr datblygol, sef ymgeisio am y rhaglen a ganlyn:

[Rhaglen Genedlaethol i Ddatblygu Darpar Benaethiaid – Paratoi ar gyfer CPCP 2021-22](#)

Mae'r rhaglen ddatblygu hon dros flwyddyn yn gyfle dysgu proffesiynol ar gyfer arweinwyr ysgol profiadol sy'n dymuno bod yn benaethiaid yn y dyfodol. Mae angen cwblhau'r rhaglen 5-diwrnod hon er mwyn cael mynediad at yr asesiad CPCP yn 2022.

Cliciwch [yma](#) am fwy o wybodaeth am y drefn, y dyddiad cau ar gyfer ymgeisio ac ati



Sefydli Athrawon Newydd Gymhwyso (ANG)

Yn 2020-21, bydd newidiadau **sylweddol** i reoliadau Sefydli ANG, a bydd yn bwysicach nag erioed bod pob Mentor Sefydli ysgol (MS), ANG a Gwiriwr Allanol (GA) yn mynychu un o'r sesiynau hyfforddi/ briffio cenedlaethol. Bydd ystod o sesiynau pwrpasol ar-lein ar gyfer pob rôl.

[Dylai ysgolion enwebu MS i fynychu sesiwn hyd yn oed os nad ydyn nhw wedi recriwtio athro fydd yn ANG ym mis Medi ar hyn o bryd, gan fod y mwyafrif o ysgolion yn cyflogi ANG ar ryw adeg yn ystod y flwyddyn academaidd].

[Cliciwch yma](#) am ragor o wybodaeth/am ddyddiadau'r sesiynau hyfforddi.

Dyfodol Byd-Eang GwE: Ieithoedd Rhyngwladol: Cyfleoedd Hyfforddi ar gyfer Athrawon Ysgolion Cynradd



Dysgu sut i gyflwyno iaith yn y sector cynradd (Cwrs Y Brifysgol Agored)

FFRANGEG / SBAENEG / ALMAENEG / MANDARIN

Cyfle i athrawon cynradd ddysgu iaith ryngwladol, a chael hyfforddiant i gyflwyno ieithoedd mewn ysgolion cynradd drwy'r Brifysgol Agored.

Os oes gennych chi, neu un o'ch cyd-weithwyr yn yr ysgol, ddiddordeb mewn cofrestru ar y cwrs, neu os bydd gennych unrhyw gwestiwn, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru erbyn **18/09/2020**.

CERDD IAITH: Defnyddio dulliau creadigol i ddysgu ieithoedd

SBAENEG / CYMRAEG / SAESNEG

Mae British Council Cymru yn cynnig **rhaglen hyfforddi ar-lein** newydd i helpu athrawon ysgolion cynradd i **addysgu trydedd iaith** yn y dosbarth. Bydd y rhaglen hyfforddi'n tywys athrawon drwy adnoddau gwefan newydd [Cerdd iaith](#). Mae'r wefan a'i hadnoddau ar gael am ddim ac yn cynnwys dros 30 o weithgareddau sy'n defnyddio cerddoriaeth a drama i **ddysgu Cymraeg a Sbaeneg**.

Am ragor o wybodaeth, manylion costau a sut i gofrestru ar gyfer sesiwn, cysylltwch â stephanieelliswilliams@gwegogledd.cymru

GOETHE INSTITUTE: Hyfforddiant ar gyfer Athrawon Cynradd: 15/9/20

ALMAENEG

Ffyrdd hwyliog o addysgu cystrawen a gramadeg: **15/09/2020, 5pm – 5:40pm**

https://www.goethe.de/ins/gb/en/spr/unt/ver/ver.cfm?fuseaction=events.detail&event_id=21950456

Defnyddio Rhythm a Chaneuon mewn Ystafell Ddosbarth Almaenig Gynradd: **14-10-2020, 5pm – 5:40pm**

https://www.goethe.de/ins/gb/en/spr/unt/ver/ver.cfm?fuseaction=events.detail&event_id=21968482

VESPA ÔL-16



Cyfle cyffrous i chi, arweinwyr ôl-16. Gan weithio gyda chonsortia rhanbarthol eraill, rydym wedi trefnu dysgu proffesiynol yn seiliedig ar waith Martin Griffin a Steven Oakes, awduron *A Level Mindset*.

Ceir rhagor o fanylion am y rhaglen a ffurflen archebu [yma](#).

Arsylwi yn erbyn y Proffil Cryno yn y Cyfnod Sylfaen



21/09/2020 - 16:00-17:00

Addas ar gyfer: Athrawon Meithrin/ Derbyn newydd eu penodi i'r cyfnod sylfaen

Mi fydd y sesiwn hwn wedi 'i recordio o flaen llaw ond bydd cyfle i ofyn unrhyw gwestiwn yn ystod y sesiwn drwy'r Sgwrs (Chat), neu ar ddiwedd y cyfarfod. Os na allwch ymuno, darperir linc fel bod modd gwyllo ar amser sy'n gyfleus.

Manylion llawn ar gael yma.

Awgrymiadau ar gyfer Cefnogi Ein Dysgwyr Mwy Abl a Thalentog

[Cliciwch ar y ddolen hon](#) am awgrymiadau amserol ac ymarferol ar gyfer cefnogi ein dysgwyr mwy abl a thalentog dros y cyfnod dyrs hwn, a ddatblygwyd gan dîm MATH traws-ranbarthol y consortia yn sgil y pandemig.

Gwybodaeth a Chanllawiau Llywodraeth Cymru

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru - Gweminar Cefnogi Gofalwyr Ifanc mewn Addysg



06/10/2020 - 14:00-15:00

Mae hon yn weminar awr i weithwyr addysg proffesiynol ac unrhyw un sy'n gweithio gyda gofalwyr ifanc.

Cofnodir y sesiwn ar gyfer y rhai na fyddant yn gallu bod yn bresennol ar y pryd.

Bydd y gweminar yn cael ei chyflwyno yn Saesneg.

[COFRESTRWCH YMA](#)

Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru - Cardiau Cyfryngau Cymdeithasol



Mae adnoddau addysgu newydd Ymddiriedolaeth Gofalwyr Cymru i ysgolion cynradd ac uwchradd ar gael yn awr ar-lein o www.carers.org/wales-education

YMDDIRIEDOLAETH
GOFALWYR
CYMRU



Mae **mwya** nac un disgybl
ysgol uwchradd o bob pump
o'r cefndiroedd llai cefnog
yng Nghymru yn cydbwysu
gwaith ysgol gyda rolau
gofalu.



YMDDIRIEDOLAETH
GOFALWYR
CYMRU



Mae adnoddau addysgu
newydd Ymddiriedolaeth
Gofalwyr Cymru ar gyfer
ysgolion cynradd ac
uwchradd ar gael yn awr ar-lein o:
carers.org/wales-education



Ymgynghoriad ar Lywodraethu Ysgolion

Mae Llywodraeth Cymru wedi [lansio](#) ymgynghoriad agored ar ddiwygiadau i weithdrefnau llywodraethu ysgolion. Daw'r ymgynghoriad i ben ar **23 Medi**.



Taith Dysgu Proffesiynol 2

[Cliciwch yma](#) am wybodaeth a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru yn gofyn i ysgolion fynegi diddordeb yn y prosiect 'Taith Dysgu Proffesiynol 2'

Mae'r holl wybodaeth sydd arnoch ei hangen am y prosiect yn yr atodiad ynghyd â linc i'r ffurflen mynegi diddordeb. Mae angen cwblhau'r ffurflen erbyn 2 Hydref.

Gweithredu'r system Anghenion Dysgu Ychwanegol

Cyhoeddodd y Gweinidog Addysg [ddatganiad](#) sy'n rhoi diweddariad ar y rhaglen trawsnewid Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY).

Trwy gydol y pandemig Covid-19, mae'r gwaith i gwblhau'r Cod a rheoliadau ADY wedi parhau. Bydd y rhain yn cael eu gosod i'w cymeradwyo gerbron y Senedd ym mis Chwefror 2021, cyn i'r system ADY gychwyn dros gyfnod o dair blynedd fesul cam o fis Medi 2021. Gweler llinell amser [yma](#).

Bydd rolau statudol ADY yn cychwyn ym mis Ionawr 2021, a chyhoeddir canllawiau i gefnogi ein partneriaid cyflenwi. Bydd y canllaw hwn, yn seiliedig ar destun o'r Cod diwygiedig, yn darparu eglurder pellach ar y rolau statudol trwy ehangu ar yr hyn sydd eisoes yn bodoli yn Neddff Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018.

Fel rhan o'n gwaith parhaus i gefnogi plant a phobl ifanc, eu teuluoedd, eu cynrychiolwyr ac ymarferwyr addysg, gan gynnwys yng nghyd-destun y pandemig cyfredol, rydym wedi cyhoeddi canllawiau [ar gefnogi dysgwyr bregus a difreintiedig](#), gan gynnwys y rhai ag ADY, wrth i ysgolion a lleoliadau ddychwelyd yn llawn.

Gallwch ddarganfod mwy am y rhaglen trawsnewid ADY a chanllawiau ar y system AAA gyfredol [yma](#) gan gynnwys ein [cwestiynau cyffredin](#) a ddiweddarwyd yn ddiweddar a'n [canllaw rhaglen trawsnewid ADY](#).

Rydym hefyd wedi lansio [ymgyngoriad](#) ar gynigion sy'n caniatáu i gynrychiolwyr weithredu ar ran pobl ifanc a rhieni plant nad yw'r gallu meddyliol ganddynt wrth arfer eu hawliau o dan Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysg (Cymru) 2018. Er mwyn sicrhau bod yr ymgynghoriad yn cyrraedd y bobl y bydd y cynigion yn cael yr effaith fwyaf arnyn nhw, byddwn yn gweithio gyda Phlant yng Nghymru i sicrhau bod pobl ifanc nad yw'r gallu meddyliol ganddynt yn cael eu targedu a'u cefnogi i ymgysylltu â'r ymgynghoriad. Mae hyn yn rhan hanfodol o'r gwaith ar y cod a'r rheoliadau ADY.

Cyfeiriwch unrhyw ymholiadau at SENReforms@llyw.cymru

Gwybodaeth a Chanllawiau gan Eraill

Coed, Coetiroedd Campus



Cwrs rhithwir dros ddau sesiwn fydd yn rhoi i chi'r arfau i wneud y mwyaf o'r awyr agored a'r newid yn y tymhorau fel cyd-destun ar gyfer dysgu. Dan arweiniad arbenigwyr addysg Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC).

Addas ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol 2 + 3.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion a'r dyddiadau.



Gweminar Estyn: Rhannu arfer effeithiol i gyflwyno Cymraeg Iaith Gyntaf Safon Uwch



14 Hydref, 3.45 yp

Os ydych chi'n addysgu Cymraeg Iaith Gyntaf Safon Uwch, yna cofrestrwch ar gyfer ein gweminar fer. Gall eich helpu i ystyried gwahanol ddulliau o gynllunio, cyflwyno a marchnata'r pwnc pwysig hwn.

COFRESTRWCH

Mae cofrestru'n cau **30 Medi 2020**.

Nodyn Atgoffa: Mae modd cofrestru ar gyfer Pori Drwy Stori Meithrin 2020 nawr!



Cliciwch [yma](https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=159257105264) i gofrestru: <https://wh1.snapsurveys.com/s.asp?k=159257105264>

Nifer cyfyngedig o leoedd sydd ar gael, ar sail y cyntaf i'r felin.

Dyddiad cau: **13 Hydref 2020**.

Ceir rhagor o fanylion am Pori Drwy Stori [yma](#).

Darparu Rhaglen Derbyn Pori Drwy Stori ym Mis Medi



Fe fydd cyflenwad o adnoddau rhaglen Derbyn Pori Drwy Stori (wedi ei ohirio oherwydd pandemig y coronafeirws) yn cyrraedd **BOB YSGOL** yn yr wythnos yn dechrau **14 Medi**.

[Cliciwch yma](#) am ragor o fanylion.

Ceisiadau i'r Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol arloesol i agor ym mis Medi

O 23 Medi, bydd ysgolion yn gallu gwneud cais unwaith eto i gymryd rhan yn y Cynllun Ysgolion Creadigol Arweiniol. Bydd y cynllun yn mabwysiadu modelau dysgu cyfunol, yn addasu i anghenion unigryw amgylchiadau bob ysgol ac yn parhau i gefnogi newid ysgol gyfan i baratoi ar gyfer Cwricwlwm Cymru 2022.

Mae rhagor o fanylion i'w cael [yma](#). dysgu.creadigol@celf.cymru

Meic Cymru - www.meiccymru.org

[Meic](#) yw'r gwasanaeth llinell gymorth i blant a phobl ifanc hyd at 25 oed yng Nghymru. O ddarganfod beth sy'n digwydd yn eich ardal leol i helpu i ddelio â sefyllfa anodd, bydd Meic yn gwrandao hyd yn oed pan na fydd neb arall yn gwrandao. Ceir rhagor o wybodaeth [yma](#).

post@gwegogledd.cymru

